# Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uwch

Hyrwyddo arloesedd a masnacholi technoleg yn y diwydiant gweithgynhyrchu, gan adeiladu ar gryfder presennol y sector o fewn ein rhanbarth.

## Amcanion

- Creu hyd at 150 o swyddi
- Cynhyrchu hyd at £60m o GVA ychwanegol net
- Gweithio gyda hyd at 55 o bartneriaid i ddatblygu technolegau carbon isel neu leihau gwastraff
- Uwchsgilio hyd at 100 o bobl / busnesau yn y technolegau a dargedir

## Targedau Buddsoddiad



Cynllun Twf
£14.5m

Sector Cyhoeddus
£5.5m

**£20m**

Cyfanswm

## The Projects


**1. Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol**
Prif Ariannwr: Prifysgol Bangor
Archwilio'r defnydd o brosesau biolegol fel dewisiadau carbon isel yn lle cynhyrchion a phrosesau gweithgynhyrchu diwydiannol.

**2. Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter**
Prif Ariannwr: Prifysgol Wrecsam
Darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf i archwilio opteg, ffotoneg a deunyddiau cyfansawdd fel dewis amgen o ddeunydd ysgafn, a fydd yn lleihau carbon o fewn y sector gweithgynhyrchu.

**3. Prosiect Prince**
Prif Ariannwr: Knauf
Darparu cyfleuster gweithgynhyrchu inswleiddio Gwlân Mwynol Creigiau newydd, gan ddefnyddio technoleg doddi Ffwrnais Arc Danfor flaengar, i ddarparu cynhyrchiad Gwlan Mwynol Creigiau cynaliadwy sy'n arwain y diwydiant, yn bennaf ar gyfer marchnadoedd y DU ac Iwerddon.

**4. Society 5.0 Prosiect Gweithgynhyrchu a Gallu**
Prif Ariannwr: Prifysgol Wrecsam
Bydd y prosiect yn gwella prosiect Ganolfan Peirianneg a Opteg Menter, gan roi mwy o fynediad i ddiwydiant at adnoddau peirianneg manwl-gywir o'r radd flaenaf yn y byd.

**5. Porth Busnes Prifysgol Wrecsam**
Prif Ariannwr: Prifysgol Wrecsam
Pontio rhwng Prifysgol Wrecsam a diwydiant lleol, gan feithrin cydweithio, arloesi, creu swyddi a thwf economaidd cynhwysol.




Mae ein hachosion busnes prosiect yn destun Adolygiadau Porth annibynnol gan Hwb Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru, ar bwyntiau penderfynu allweddol, yn unol â Phroses Porth y Trysorlys